

Astudiaeth Achos: Ailddatblygu Parciau Penarth Heights

Manylion cyswllt

Enw: Lloyd Fisher

Teitl/rôl: Intern Graddedig Perfformiad a Datblygiad

Mudiad: Cyngor Bro Morgannwg

Ebost: lfisher@valeofglamorgan.gov.uk

Ffôn: 01446 709366

Rhanddeiliaid allweddol: Cynghorwyr, Trigolion, Grwpiau Buddiant, Clybiau Rhedeg, Grwpiau Ieuenctid a Sglefwrwr

Testun yr astudiaeth achos

1. Amlinelliad cryno o'r prosiect

O ganlyniad i ailddatblygiad diweddar ardal breswyl Penarth Heights, mae swm sylweddol o gyllid cymunedol Adran 106, sy'n gysylltiedig â'r ailddatblygiad, wedi'i glustnodi i fuddsoddi mewn Parciau cymunedol o amgylch y datblygiad newydd. Roedd y Cyngor yn awyddus i fuddsoddi cyllid Adran 106 mewn un parc yn benodol ar Heol Paget; y cynllun oedd ailddatblygu'r parc a rhoi parc sglefrio neu fan sglefrio ynddo. Yn sgil adborth negyddol yn yr ymgynghoriadau cychwynnol â thrigolion, mae'r cynlluniau bellach wedi newid a bydd y cyllid Adran 106 nawr yn cael ei rannu rhwng tri pharc sydd o fewn y pellter dynodedig i'r ailddatblygiad. Y gobaith nawr yw gwario'r cyllid i ailddatblygu man sglefrio yng Nghogan, ailddatblygu Parc ar Heol Dingle ac ailddatblygu Parc Sgwâr Plassey. Ymgynghorir ar y gwaith ailddatblygu fel un prosiect cyfan, gan roi'r cyfle i drigolion ymateb i'r holl gynlluniau ailddatblygu ar yr un pryd a rhoi adborth, positif neu negyddol, ar y cynlluniau drwy'r un fforwm.

2. Manylion y mater yr ymdriniwyd ag ef

Bwriedir cynnal y prosiect hwn o'r gwaelod i fyny mewn modd cydgynhyrchiol, dan arweiniad cymuned Penarth Heights. Gobaith y prosiect yw ailddatblygu'r Parciau mewn ffordd sy'n adlewyrchu dymuniadau ac anghenion y trigolion, ac yn enwedig anghenion pobl ifanc yr ardal. Mae profiad blaenorol trigolion o brosesau ymgysylltu wedi bod ar lefel 'cyfathrebu' neu 'ymgynghori' yn bennaf, ac felly mae rhai trigolion

wedi mynegi pryderon a barn negyddol nid yn unig ynglŷn â'r ailddatblygiad ei hun, ond hefyd ynglŷn â chynlluniau blaenorol i fuddsoddi cyllid Adran 106 mewn un parc yn benodol. O ganlyniad, mae'r prosiect hwn wedi mynd ati'n bwrpasol i gynnwys ac ennyn diddordeb trigolion yn y broses gynllunio o'r cychwyn cyntaf; gan gynnwys grwpiau ieuencid a grwpiau sglefrio er mwyn datblygu darlun o beth yr hoffai'r grwpiau hyn ei weld yn cael ei ddatblygu ym mha barciau.

3. Gweithredoedd/dull a gymerwyd

Yn sgil yr ymateb negyddol i'r ymgynghoriad blaenorol ynglŷn â Pharc Heol Paget, pan gynhaliwyd cyfarfod agored â thrigolion mewn tafarn leol, penderfynwyd ailystyried y cynlluniau ar gyfer Parc Heol Paget ac ailddyrranu cyllid Adran 106 i wella manau chwarae eraill yn yr ardal yn ogystal â Heol Paget. Cynhaliwyd cyfarfod â Chynghorwyr yr ardal, a mab y Cynghorydd King, sglefriwr lleol, a oedd yn gyfrwng i gyrraedd sglefrwyr eraill yn yr ardal. Trwy'r cyfarfod, cawsom glywed barn y sglefrwyr lleol a dod i ddeall, yn hytrach na datblygu cyfleusterau sglefrio yn Heol Paget, y byddai'n well ganddynt pe bai'r cyfleusterau sglefrio sydd eisoes yng nghanolfan hamdden Cogan yn cael eu gwella ac efallai y gellid gwneud rhywle ar gyfer sgwteri i blant iau yn Heol Paget.

Parc arall a nodwyd fel un cymwys am gyllid Adran 106 yw Parc Dingle. Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud yn y Parc yn y blynyddoedd diwethaf ond dim byd ar raddfa fawr ac yn wir mae angen ailddatblygu'r cyfleusterau. Cynrychiolir y Parc gan grŵp Cyfeillion Parc Dingle, mae'r grŵp yn gweithio'n bennaf ar y cyfryngau cymdeithasol ond maent hefyd wedi cymryd rhan yn y gwaith cynnal a chadw yn y parc. Trefnwyd sesiwn ymgysylltu â'r grŵp drwy fanteisio ar gysylltiadau yn yr adran Parciau sydd mewn cysylltiad rheolaidd ag un o arweinwyr y grŵp. Wrth drafod â'r rhanddeiliad yma, penderfynwyd mai un o brif broblemau'r parc yw'r ffens a'r llwyni ac y byddai gwella'r rhain o gymorth mawr i wella golwg y Parc ac annog mwy i'w ddefnyddio.

Trwy ymgynghori â staff y Parc, daethom i wybod am grŵp arall o randdeiliaid sy'n defnyddio'r Parc yn rheolaidd. Mae nifer o glybiau rhedeg yn ei ddefnyddio'n rheolaidd, felly, aethom at y clybiau hyn i gasglu gwybodaeth ynglŷn â sut y gellid gwella'r profiad o ddefnyddio Parc Dingle. Dywedodd y grwpiau fod yna botensial i greu 'Heol Heini' yn y parc, gan alluogi'r grwpiau rhedeg i barhau i ddefnyddio'r parc i gadw'n heini a hefyd efallai annog eraill i'w ddefnyddio ar gyfer eu ffitrwydd yn y dyfodol.

Parc arall a nodwyd fel rhywle y gellid ei ailddatblygu oedd Parc Sgwâr Plassey. Yn hanesyddol, mae trigolion wedi bod yn erbyn ailddatblygu'r cyfleusterau chwarae yn y parc; ond cynhaliwyd yr ymgynghoriad blaenorol hwnnw dros 10 mlynedd yn ôl. Rydym wrthi'n ymgynghori â thrigolion i ystyried a ddylid gosod cyfleusterau chwarae newydd yn y parc yn lle'r rhai presennol a chodi ffens er mwyn gwneud y parc yn fwy diogel o gofio bod mwy o draffig o ganlyniad i ailddatblygu Penarth Heights. Y gobaith yw y

bydd y gwaith ymgysylltu hwn yn goresgyn rhai o'r rhwystrau a'r farn negyddol a oedd ynghlwm wrth ymgynghoriadau blaenorol, ac yn cynnig y cyfle i drigolion newydd y datblygiadau newydd ystyried pa gyfleusterau chwarae yr hoffent yn yr ardal.

4. Crynhoi lle cafwyd arfer da yn eich prosiect

Un o'r prif amcanion wrth ymgynghori ar y Parciau oedd rhoi profiad positif i randdeiliaid o'r broses ymgysylltu. Ffactor hollbwysig yn y prosiect hwn oedd dysgu o wersi ymgynghoriadau blaenorol. Cafwyd adborth negyddol yn yr ymgynghoriad cychwynnol â thrigolion ar ailddatblygu Heol Paget, ond cyfarfod agored mewn tafarn oedd yr ymgynghoriad hwn a alluogodd rhai unigolion i reoli'r sgwrs. Wrth gwrs, derbyniwyd yr adborth hwn a gweithredu arno drwy ystyried defnyddio'r arian mewn mwy nag un ardal yn unig, ond mae'r prosiect hwn wedi ceisio osgoi camgymeriadau blaenorol ac wedi ceisio cynnwys rhanddeiliaid a defnyddwyr yn y trafodaethau o'r cychwyn cyntaf. Trwy gynnwys rhanddeiliaid o'r cychwyn cyntaf yn y broses ymgysylltu, y gobaith oedd sefydlu diwylliant cydweithio â rhanddeiliaid er mwyn iddynt hwythau hefyd ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth dros y prosiect. Bydd hyn yn hanfodol oherwydd natur cyllid Adran 106 gan y byddwn yn ailddatblygu'r parciau ond prin yw ein hadnoddau i gynnal a chadw'r cyfleusterau wedi hynny.

Trwy'r prosiect, rydym yn ogystal wedi goresgyn amharodrwydd darparwyr gwasanaethau yn y gorffennol i ildio unrhyw bŵer o gwbl dros brosiect. Mae datblygiadau blaenorol yn yr ardal wedi'u nodweddu gan naill ai ymgynghoriadau negyddol neu ymgynghoriadau cyfyngedig. Mae'r prosiect hwn wedi ceisio goresgyn y rhwystrau hyn drwy gynnwys rhanddeiliaid yn y broses gynllunio a pharhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y cynlluniau'n adlewyrchu eu dymuniadau a'u hanghenion, a'u bod hefyd yn realistig ac yn gyraeddadwy.

Mae'r prosiect wedi ceisio symud i ffwrdd oddi wrth ddulliau ymgynghori traddodiadol, megis y cyfarfod agored a gynhaliwyd mewn tafarn leol ynglŷn ag ailddatblygu Parc Heol Paget, at ddulliau ymgysylltu mwy agored megis mynd allan i drafod â Sglefrwyr, grwpiau rhedeg a grwpiau buddiant. Y gobaith yw y bydd defnyddio'r dulliau hyn yn sicrhau bod y prosiect yn cael ei nodweddu gan israniad mwy cynrychiadol o randdeiliaid, gan gynnwys lleisiau tawel yn ogystal â lleisiau brwd.

5. Dadansoddi sut y gellid gwella'r broses ymgynghori

Er bod y prosiect wedi bod yn llwyddiannus, gellid cymryd nifer o gamau i wella'r broses ymgysylltu. Gellid bod wedi gwella'r broses ymgysylltu drwy weithio'n fwy gyda phartner-fudiadau, gallem fod wedi ymgysylltu â Chyngor Tref a Chymuned Penarth i fod yn gyfrwng at fudiadau perthnasol eraill â diddordeb yn y prosiect. Pe bai'r mudiadau hyn wedi'u cynnwys o ddechrau'r prosiect, byddem wedi sicrhau bod pŵer yn cael ei rannu'n ehangach.

Oherwydd natur y prosiect, a ddefnyddiodd gyllid

Adran 106 sy'n gysylltiedig ag ailddatblygiad Penarth Heights, roedd risg y byddai'r prosiect yn llawn jargon. Gallai hyn fod wedi atal rhai grwpiau rhag cymryd rhan yn y prosiect ac felly efallai nad yw'r prosiect yn cynrychioli'r holl grwpiau sydd â diddordeb yn y gwaith. Gellid gwella'r prosiect drwy gyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd symlach er mwyn annog amrywiaeth ehangach o randdeiliaid i gyfrannu at y prosiect, gan felly gynrychioli ystod ehangach o safbwyntiau.

Ffactor arall a allai fod wedi gwella'r prosiect yw mwy o amser ar gyfer y broses ymgysylltu; gan fod y prosiect yn gysylltiedig ag Adran 106, roedd yna gyfyngiadau amser llym ar y prosiect i sicrhau ein bod yn cadw at y terfynau amser wrth wario cyllid Adran 106. Gellid bod wedi gwella'r broses ymgysylltu pe bai modd treulio mwy o amser i sicrhau bod yr holl randdeiliaid wedi'u cynnwys a bod y cynlluniau yn adlewyrchu safbwynt y mwyafrif o randdeiliaid. Er bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i sicrhau bod cynlluniau yn adlewyrchu hyn, mae yna berygl, oherwydd cyfyngiadau amser, ein bod wedi methu â sylwi ar rai safbwyntiau.

6. Sut fydddech yn graddio'ch dull o gynnal y prosiect o'i gymharu â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a pham?

Egwyddor	Gwerthusiad 1= gwael iawn: 2 = gwael: 3 = cymedrol: 4 = da: 5 = rhagorol				
Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth	1	2	3	4	5
Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny	1	2	3	4	5
Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol	1	2	3	4	5
Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol	1	2	3	4	5
Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall	1	2	3	4	5
Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan	1	2	3	4	5

	gymuned yn hytrach na disgwyl i randdeiliaid ddod atom ni.				
Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol	1	2	3	4	5
	Rhoddodd y broses ymgynghori y cyfle i bawb a oedd â diddordeb i gymryd rhan yn y trafodaethau ar y Cynlluniau ar gyfer y parciau ar nifer o adegau yn y broses.				
Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol	1	2	3	4	5
	Oherwydd y cyfyngiadau amser ar y prosiect o ganlyniad i natur cyllid adran 106, pe bai'r prosiect wedi cael mwy o amser, gellid bod wedi chwilio am randdeiliaid ychwanegol.				
Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad	1	2	3	4	5
	Gan nad yw'r prosiect wedi'i gynnal eto, mae'n anodd mesur ein llwyddiant gyda'r egwyddor hon, serch hynny, bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle i roi adborth ar y prosiect ac yn cael gwybod sut mae eu hadborth wedi cyfrannu at gynlluniau'r parciau a sut y rhoddir hyn ar waith.				
Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu	1	2	3	4	5
	Rydym yn bendant wedi dysgu o fethiannau ymgynghoriadau blaenorol ac wedi cymryd camau positif yn yr ymgynghoriad hwn i symud at fodel ymgysylltu sy'n rhannu pŵer.				